

ATHLETAU CYMRU



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU



YMUNWCH Â'N BWRDD
**CADEIRYDD
ATHLETAU
CYMRU**

TABL CYNNWYS



01

Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth

02

Ein Gwerthoedd

03

Cefndir

04

Crynodeb Rôl

05

Manylion

06

Ymrwymiad ED&I

EIN GWELEDIGAETH

Athletau i bawb, ym mhobman

EIN CENHADAETH

*Bod y gamp rhif 1 ar gyfer cyfranogiad,
perfformiad a chyfleoedd cynhwysol ledled
Cymru*

PILARAU STRATEGOL

Athletau sy'n Tyfu

**Cymru o'r Safon
Fyd-eang**


**Seilweithiau
Chwaraeon
Ffyniannus**

Cymru Egnïol ac Iach

**Sefydliad
Perfformiad Uchel**

**Chwaraeon Diogel a
Chynhwysol i Bawb**

EIN GWERTHOEDD



CEFNDIR

Mae Athletau Cymru yn chwilio am Gadeirydd ymroddedig a blaengar i helpu i arwain y sefydliad drwy ei gyfnod datblygu nesaf.

Rydym yn chwilio am unigolyn profiadol sy'n gallu cymhwyso barn annibynnol a gweithio gydag aelodau eraill o'r Bwrdd i sicrhau twf parhaus ar gyfer camp athletau ledled Cymru.

Athletau Cymru



Y Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer yr holl weithgareddau rhedeg ac athletau ledled Cymru. Mae'r sefydliad yn rheoli'r holl waith trwyddedu cystadlaethau, addysg hyfforddwyr a swyddogion, trwyddedu a datblygu ac yn cefnogi dros 100 o glybiau i sbarduno twf yn y niferoedd sy'n cymryd rhan ar draws pob grŵp oedran a demograffeg. Fel y maes chwaraeon uchaf ei gyfranogiad yng Nghymru, rydym hefyd yn goruchwyllo ac yn darparu nifer fawr o weithgareddau cyfranogi fel The Daily Mile a grwpiau rhedeg cymdeithasol, ac yn gweithio'n agos hefyd gyda phartneriaid allweddol fel parkrun, Chwaraeon Cymru a Phartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol.

UK Athletics a Chyrff Llywodraethu Athletau Gwledydd Prydain



Mae gan Athletau Cymru y gallu i enwebu aelod o'r Bwrdd i eistedd ar Fwrdd UK Athletics, er nad yw'n orfodol, mae'r rôl hon wedi bod yn cael ei chyflawni yn y gorffennol gan Gadeirydd Athletau Cymru. Disgwylir hefyd i'r Cadeirydd gyfathrebu â chydweithwyr o bob rhan o wledydd Prydain o bryd i'w gilydd.

CRYNODEB RÔL

- Arwain y Bwrdd er mwyn hyrwyddo a chyfarwyddo Athletau Cymru i gyflawni ei brif amcanion, gan gynnwys gosod gweledigaeth a chyfeiriad strategol y sefydliad.
- Gweithio gyda'r Bwrdd, i sicrhau bod strwythur a gallu sefydliadol Athletau Cymru, gan gynnwys yr adnoddau sydd ar gael, yn briodol ar gyfer gweithredu ei strategaeth.
- Rheoli, cefnogi a gweithredu fel cynghorydd dibynadwy i'r Prif Weithredwr, gan gysylltu'n agos a dwyn y Prif Weithredwr i gyfrif ynghylch cyflawniad cynlluniau ac amcanion y cytunwyd arnynt.
- Cynllunio a gosod agendâu, a llywyddu cyfarfodydd y Bwrdd i sicrhau penderfyniadau effeithlon, dadleuon adeiladol, ac ymgysylltiad llawn yr holl gyfarwyddwyr
- Sicrhau bod y Bwrdd yn goruchwylio unrhyw risg a/neu statws ariannol y sefydliad yn ofalus
- 'Arwain o'r blaen' o ran arddangos y safonau gonestrwydd uchaf bob amser. Sicrhau bod y sefydliad yn dangos yr arferion gorau ym mhob maes llywodraethu corfforaethol a llywodraethu chwaraeon.
- Bod yn llysgennad ar gyfer camp athletau a chynorthwyo staff uwch i gynnal perthnasoedd â rhanddeiliaid a chyllidwyr allweddol.
- Rheoli recriwtio, sefydlu, hyfforddi ac asesu perfformiad cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau Bwrdd medrus a chytbwys
- Hyrwyddo ymrwymiad y sefydliadau i gynyddu amrywiaeth ymhlith cyfranogwyr ein chwaraeon ac ar draws ein strwythurau gwirfoddoli, staff a llywodraethu.

MANYLION

Time commitment



Mae Bwrdd Athletau Cymru fel arfer yn cyfarfod 5 gwaith y flwyddyn, ac mae'n bosib y gofynnir i aelodau'r Bwrdd eistedd ar is-grwpiau o bryd i'w gilydd. Fel y soniwyd, mae'n debygol y bydd Cadeirydd Athletau Cymru hefyd yn eistedd ar Fwrdd UK Athletics. Cysylltwch â james.williams@welshathletics.org am fwy o wybodaeth am yr ymrwymiad i UK Athletics.

Byddai disgwyl hefyd i'r Cadeirydd gael trafodaethau rheolaidd gyda Phrif Swyddog Gweithredol Athletau Cymru, a mynychu cyfarfodydd achlysurol gyda Chwaraeon Cymru.

Term of Office



Penodir y Cadeirydd am gyfnod o bedair blynedd, a chaniateir uchafswm o 2 dymor.


Location



Mae prif swyddfa Athletau Cymru wedi'i lleoli ar Gampws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd a chynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd o bell.

Mae hon yn rôl wirfoddol a chaiff yr holl dreuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol eu had-dalu'n llawn.

YMRWYMIAD ED&I



Rydym yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys a chymwys waeth beth fo'u rhyw, hil, anabled, oedran, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cred neu ddiffyg cred.

Rydym yn penodi gyda system agored a gonest sy'n seiliedig ar yr arferion gorau presennol ac os oes arnoch chi angen unrhyw gymorth i gwblhau eich cais neu os oes arnoch chi angen fformat gwahanol, cysylltwch â: Eleanor Cartlidge

eleanor.cartlidge@welshathletics.org

Sylwer, Rydym yn ymrwmo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Rydym yn ymrwmo i gynhwysiant ac yn croesawu ysbryd pob deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydaddoldeb. Lle bo modd, byddwn bob amser yn barod i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau hygyrchedd i unrhyw un sydd ei angen.

SUT I WNEUD CAIS

I wneud cais am y rôl hon, ewch i'n tudalen gyrfaoedd ar-lein yn <https://www.welshathletics.org/en/page/careers> lle byddwch yn dod o hyd i ddolen i gyflwyno'ch CV a llythyr eglurhaol.

Am ragor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â james.williams@welshathletics.org

